



# Cynllun Pwnc Y Diwydiannau Creadigol

Gorffennaf 2018

**CYMRAG**



Ariennir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Funded by  
**Welsh Government**

## Cyflwyniad a chyd-destun

### Cyd-destun y Cynllun

Ym mis Ionawr 2017 cyhoeddodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ei ail Gynllun Academaidd. Mae 'Tuag at 2020 a thu hwnt' yn gynllun strategol sy'n gosod egwyddorion, nodau a fframwaith cynllunio ar lefel genedlaethol. Mae hyn yn adeiladu ar y [Cynllun Academaidd](#) cyntaf a gyhoeddwyd yn 2012 yn fuan wedi sefydlu'r Coleg. Mae'r Cynllun Pwnc Diwydiannau Creadigol yn gosod yr egwyddorion a'r nodau ar waith ar lefel ddisgyblaethol.

### Cyd-destun/Cefndir y Pwnc

Mae traddodiad hir o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ym maes y Diwydiannau Creadigol, ac o ganlyniad, mae'r ddarpariaeth a'r lefelau staffio yn uwch na nifer o'r pynciau eraill a gynigir drwy gyfrwng y Gymraeg. Serch hynny, tra bod y ddarpariaeth, a buddsoddiad y Coleg yn y maes wedi cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf, nid yw'r niferoedd sy'n astudio'r pwnc wedi cynyddu. I'r gwrthwyneb, gwelwyd cwmp ym y cofrestriadau cyfrwng Cymraeg yn y maes yn y pum mlynedd ddiwethaf. Nodwyd bod hyn yn gyffredinol wir ar draws Prydain (yn fwy felly yn Lloegr lle mae'r pwyslais ar y maes mewn ysgolion wedi lleihau a thipyn llai yn dilyn Lefel A yn y pynciau perthnasol). Nid yw'r cwmp yng Nghymru wedi bod mor sylweddol, ond mae'n bosibl fod y newid mewn demograffig wedi effeithio ar hyn. Mae'n bwysig nodi hefyd bod y sector Diwydiannau Creadigol yn parhau i fod yn flaenoriaeth strategol i Lywodraeth Cymru.<sup>1</sup>

Mae cwmpas eang iawn o feysydd yn syrthio o dan faner y Diwydiannau Creadigol, sy'n cynnwys y Cyfryngau, Cyfryngau Digidol, Drama, Astudiaethau Theatr, Perfformio, Astudiaethau Ffilm a Theledu, a Newyddiaduraeth a Chysylltiadau Cyhoeddus. Dros y blynyddoedd diwethaf, gwelwyd ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws y meysydd hynny gan arwain at sefyllfa galonogol lle bo nifer o brifysgolion yn cynnig rhywfaint, os nad cyfran helaeth o lwybrau gradd yn y maes drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae natur y ddarpariaeth yn amrywio'n fawr rhwng y sefydliadau – mae'r ddarpariaeth yn ymarferol iawn mewn rhai sefydliadau, ond yn draddodiadol 'academaidd' mewn sefydliadau eraill, ac mae nifer o'r llwybrau gradd yn cyfuno astudiaethau ymarferol â'r hyn a ystyrir yn 'draddodiadol academaidd'. Hefyd, ceir darpariaeth alwedigaethol yn y maes hwn mewn rhai sefydliadau. Mae'n faes sy'n datblygu yng nghynt nag unrhyw sector arall, ac mae gofyn i brifysgolion gydnabod hyn ac ymateb i ofynion sgiliau'r sector yn rheolaidd.

O safbwynt maes y cyfryngau, mae sector yr economi ddigidol yn tyfu ddwywaith yn gyflymach nag unrhyw sector arall. Datgelwyd mewn cynhadledd ddigidol yng Nghaerdydd (Medi 2017) bod y cyflog cyfartalog yn y maes hwn 44% yn uwch a chynhyrchiant ddwy waith yn uwch. Mae 68% o fuddsoddiad technegol yn digwydd y tu allan i Lundain, gyda llawer ohono'n digwydd yng Nghymru, yn benodol mewn clystyrrau creadigol sydd wedi eu lleoli o gwmpas Caerdydd ac Abertawe. Mae'n hynod bwysig bod siaradwyr Cymraeg ar y naill law yn medru cael mynediad i'r farchnad hon, ac, ar y llaw arall, wedi eu harfogi â'r sgiliau angenrheidiol i greu gwaith yn y sector yma.

Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol wedi buddsoddi'n helaeth mewn datblygiadau ym maes y Diwydiannau Creadigol – drwy gyllido swyddi darlithio a phrosiectau i gynhyrchu adnoddau, a chefnogi gweithgareddau cydweithredol a chenedlaethol. Yn ogystal, mae cyfran helaeth o amser y Swyddog Datblygu ar gyfer y Celfyddydau a'r Dyniaethau – swydd genedlaethol a gyllidir gan y Coleg – wedi ei neilltuo ar gyfer chefnogi gweithgareddau yn y maes hwn. Mae'r buddsoddiad hyn wedi arwain at gynyddu a dyfnhau'r ddarpariaeth, a chyfoethogi profiad

<sup>1</sup> <https://gov.wales/topics/businessandconomy/our-priority-sectors/creative-industries/?lang=cy>

addysgu'r myfyrwyr. Yn 2016, cynhaliodd y Coleg Cymraeg adolygiad o'r maes Diwydiannau Creadigol ac mae argymhellion yr adolygiad hwn wedi eu hadlewyrchu yn y Cynllun Pwnc.

Mae'r Diwydiannau Creadigol yn parhau i ddenu niferoedd da o fyfyrwyr i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, yn arbennig felly o gymharu â nifer o feysydd eraill, ond mewn blynyddoedd diweddar gwelwyd her i gynnal a chynyddu niferoedd y myfyrwyr. Yn wyneb yr heriau hyn, er bod tystiolaeth o gydweithio da rhwng y prifysgolion yn y maes hwn, ceir cystadleuaeth rhyngddynt am fyfyrwyr. Mewn cyd-destun cystadleuol o'r fath, mae'n anochel bod rhai tensiynau yn cael eu hamlygu o dro i dro yn sgil hynny.

### **Proses**

Cam cyntaf y broses o lunio'r cynllun hwn oedd i sefydliadau addysg uwch ymateb i ffurflen cynllunio pwnc. Pwrpas y ffurflen oedd casglu gwybodaeth gyfredol oddi wrth y prifysgolion am lefel y ddarpariaeth, capasiti staffio a niferoedd myfyrwyr. Mae'r targedau yn y cynllun hwn yn seiliedig ar y wybodaeth honno ac yn gosod nodau a blaenoriaethau am y pum mlynedd nesaf a thu hwnt.

### **Egwyddorion a Themâu**

Tra oedd y cynllun pwnc blaenorol yn canolbwyntio ar ddatblygu darpariaeth Gymraeg ar gynlluniau gradd anrhydedd, bydd y cynllun hwn yn adeiladu ar y cynnydd a gyflawnwyd yn y sefydliadau yn ystod cyfnod cynllun academaidd cyntaf y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac yn canolbwyntio ar y nod o gynnig addysg uwch o'r radd flaenaf i'r myfyrwyr sy'n dewis astudio o leiaf cyfran o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae profiad y myfyriwr yn greiddiol i'r egwyddor honno.

### **Strwythur y Cynllun**

Mae'r Cynllun Pwnc Diwydiannau Creadigol yn gosod fframwaith ar gyfer y cyfnod 2017/18 hyd at 2022/23. Rhwir mwy o bwyslais ar gyd-destun polisi a'r cyfleoedd a'r heriau sy'n benodol i'r maes Diwydiannau Creadigol.

Mae proses dyrannu grantiau pynciol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn dibynnu ar gategori'r pwnc yn genedlaethol oddi mewn i'r Cynllun Academaidd, blaenoriaethau strategol y prifysgolion unigol a natur y gefnogaeth sy'n parhau o du'r Coleg Cymraeg (e.e. drwy'r Cynllun Staffio). Mae cyfuniad o ffactorau'n effeithio ar ddyraniad grant pynciol ac ar a ydyw'r prifysgolion yn cwrdd â'r meini prawf a osodwyd gan y Cynllun Academaidd Cenedlaethol ai peidio. Ystyrir y maes Diwydiannau Creadigol (yn ei gyfanrwydd) yn faes aeddfed lle y mae traddodiad hir a lefel uchel o ddarpariaeth. Serch hyn, mae'r pwnc Newyddiaduraeth yn cael ei ystyried fel maes datblygedig.

Adolygir ystod y ddarpariaeth a'r lleoliadau astudio yn flynyddol yn unol â meini prawf y Cynllun Academaidd – sef bod o leiaf chwe myfyriwr ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, a bod o leiaf dau aelod o staff academaidd (cyfwerth amser llawn) yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer darpariaeth gwerth deugain credyd y flwyddyn, a phedwar aelod o staff academaidd yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer darpariaeth gwerth wyth deg credyd y flwyddyn.

Sefyllfa Gyfredol (2016/17)			
Sefydliad Addysg Uwch	Darpariaeth	Staff	Myfyrwyr <sup>2</sup>
Prifysgol Aberystwyth <u>Meysydd:</u> Ffilm a Theledu Drama a Theatr Cyfryngau	Rhywfaint o ddarpariaeth ar 33 o gyrsiau gradd o fewn Athrofa'r Celfyddydau a'r Dyniaethau. <sup>3</sup>  Darpariaeth lawn trwy gyfrwng y Gymraeg ar 10 o'r cyrsiau gradd sengl/cyfun hynny.	13 aelod o staff yn siarad Cymraeg.  9 aelod staff CALI yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.	O leiaf 6 ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg Bl.1-3  42.5 yn siarad Cymraeg (ar draws pob blwyddyn astudio, gan gynnwys myfyrwyr ôl-radd).
Prifysgol Abertawe <u>Meysydd</u> Cyfryngau Cysylltiadau Cyhoeddus	Darpariaeth lawn trwy gyfrwng y Gymraeg ar ddau gwrs gradd ac o leiaf 80 credyd ar ddau gwrs gradd yn yr Adran Cyfryngau a Chyfathrebu.	6 aelod o staff yn siarad Cymraeg.  3 aelod staff CALI yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.	Llai na 6 ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg Bl.1-3.  35 yn siarad Cymraeg (ar draws pob blwyddyn astudio, gan gynnwys myfyrwyr ôl-radd).
Prifysgol Bangor <u>Meysydd</u> Astudiaethau Creadigol Cyfryngau Ffilm a Theatr Ysgrifennu Creadigol	Rhywfaint o ddarpariaeth ar 35 o gyrsiau gradd yn yr Ysgol Astudiaethau Creadigol a Chyfryngau.  Darpariaeth lawn trwy gyfrwng y Gymraeg ar 4 o'r cyrsiau gradd sengl/cyfun hynny.	9 aelod o staff yn siarad Cymraeg.  6 aelod staff CALI yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.	O leiaf 10 ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg Bl.1-3.  32 yn siarad Cymraeg ar draws pob blwyddyn astudio.

<sup>2</sup> Gwybodaeth yn seiliedig ar y data a oedd yn gyfredol yn 2016/17 ac yn gyson â'r dull adrodd arferol i HESA.

<sup>3</sup> Cafwyd ar ddech (Mai 2017) bod Prifysgol Aberystwyth yn adolygu nifer y llwybrau gradd gwahanol a gynnigir ar hyn o bryd. Nid yw'r ymarferiad hwn yn gysylltiedig yn benodol â darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Newyddiaduraeth			
Prifysgol Caerdydd <u>Meysydd:</u> Newyddiaduraeth	O leiaf 40 credyd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.  Rhywfaint o ddarpariaeth ar gyrsiau ôl-radd MA.	4 aelod o staff yn siarad Cymraeg.  3 aelod staff CALI yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.	O leiaf 10 ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg BI.1-3.  60 yn siarad Cymraeg (ar draws pob blwyddyn astudio, gan gynnwys myfyrwyr ôl-radd).
Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant <u>Meysydd:</u> Perfformio	O leiaf 80 credyd trwy gyfrwng y Gymraeg ar gael ar un cwrs 2 flynedd.	15 aelod o staff yn siarad Cymraeg.  13 aelod staff yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.	O leiaf 15 ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg BI.1-2  29 yn siarad Cymraeg ar draws pob blwyddyn astudio.
Prifysgol De Cymru <u>Meysydd:</u> Theatr a Drama Cynhyrchu'r Cyfryngau	Darpariaeth lawn trwy gyfrwng y Gymraeg ar 2 gwrs gradd	10.5 aelod o staff yn siarad Cymraeg.  4 aelod staff CALI yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.	O leiaf 10 ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg BI.1-3 (ar draws y ddwy ddisgyblaeth).  55 yn siarad Cymraeg (ar draws y ddwy ddisgyblaeth).

## Datblygu'r maes: patrwm cenedlaethol

### Profiad Myfyrwyr

Ers rhai blynyddoedd, mae'r Coleg Cymraeg wedi cefnogi gweithgareddau sy'n cyfoethogi profiadau myfyrwyr. Mae rhain yn cynnwys amryw o ddigwyddiadau blynyddol ym maes theatr a drama (Cwrs Cyfarwyddo, Cynhadledd Theatr, Gŵyl MAP, Sgiliau Sgriptio a Dadansoddi Digwyddiad). Mae'r Coleg Cymraeg yn gofyn i'r myfyrwyr am adborth penodol ar Wyl MAP ac ystyrir y sylwadau wrth gynllunio a threfnu'r digwyddiad yn flynyddol. Gellid creu clipiau byrion o fyfyrwyr fel 'llysgenhadon' er mwyn hyrwyddo'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a phrofiad y myfyriwr o fewn y maes. Cynigwyd profiadau gwerthfawr i fyfyrwyr ar y modiwl cydweithredol 'Y Senedd, y Straeon a'r Spin' yn 2016/17 a bydd y ddarpariaeth yn parhau yn 2017/18 gyda gwahoddiad eto i sefydliadau eraill fod yn rhan o "Stori'n Torri" ar ddiwedd y modiwl.

Ym Mhrifysgol Bangor cyflwynir sawl cwrs gradd, ond mae'r sefyllfa o ran cefnogaeth astudio ac adborth yn weddol gyson. Mae'r uned sgiliau astudio yn cynnig darpariaeth lawn drwy gyfrwng y Gymraeg. Cyflwynir elfennau o sgiliau astudio cyffredinol o fewn modiwlau penodol hefyd, gyda hyn ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae myfyrwyr yn derbyn adborth yn y Gymraeg ar fodiwlau cyfrwng Cymraeg, a hefyd ar fodiwlau cyfrwng Saesneg os yw hynny'n briodol. Mae darpariaeth gloywi iaith ar gael yn ogystal, a modiwl Sgiliau Iaith ar gael yn y flwyddyn gyntaf. Mae'r undeb myfyrwyr Cymraeg a chymdeithasau megis y Gymdeithas Ddrama Gymraeg yn cynnig nifer o brofiadau allgyrsiol. Mae modd dewis modiwl yn y drydedd flwyddyn sydd yn cynnwys profiad gwaith, gyda mwy o gyfleoedd ar gael yn naturiol i fyfyrwyr dwyieithog. Mae gan y brifysgol gynllun gwobrwyo cyflogadwyedd (GCB – Gwobr Cyflogadwyedd Bangor) a chynhelir seremoni wobrwyo yn flynyddol, yn ogystal â chyfres o weithgareddau yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys darpariaeth benodol yn y Gymraeg. Cynhelir Ffair Gyrfaoedd i fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith a Ffair Gyrfaoedd yng Ngholeg y Celfyddydau a'r Dyniaethau.

Mae arolwg barn myfyrwyr JOMEC Cymraeg Prifysgol Caerdydd yn nodi 100% boddhad. Mae'r holl fodiwlau cyfrwng Cymraeg yn cynnwys profiadau ychwanegol, gan gynnwys ymweliadau â chanolfannau cyfryngau allweddol megis ystafelloedd newyddion BBC Cymru ac ITV Cymru. Mae myfyrwyr yn elwa ar ystod eang o siaradwyr gwadd a chyfleoedd i gyhoeddi eu gwaith trwy brosiectau gyda phartneriaid yn y diwydiant. Un o'r prosiectau mwyaf arwyddocaol o'r rhain yw'r gwasanaeth newyddion digidol 'Llais y Maes' a gynhrychir yn yr Eisteddfod Genedlaethol bob blwyddyn. Mae'r prosiect yn cyflogi myfyrwyr i weithio ochr yn ochr â newyddiadurwyr proffesiynol o raglen 'Hacio' (S4C/ITV) i gynhrychu cynnwys digidol gwreiddiol o'r Maes.

Mae 'Llais y Maes' wedi datblygu i fod yn elfen allweddol o bresenoldeb Prifysgol Caerdydd yn yr Eisteddfod Genedlaethol ac mae'n fodd o hyrwyddo'r Ysgol, y Brifysgol a'r Coleg Cymraeg yn ehangach. Mae myfyrwyr JOMEC yn chwarae rhannau allweddol yng nghyfyngau myfyrwyr Prifysgol Caerdydd a nhw oedd yn gyfrifol am greu grŵp newydd Cyfyngau Myfyrwyr Cymraeg Caerdydd. Gwnaeth myfyrwyr JOMEC hefyd helpu i sefydlu Undeb Myfyrwyr Cymraeg Caerdydd.

Mae adran Gwasanaeth Datblygu Myfyrwyr a Sgiliau Astudio Prifysgol De Cymru yn cynnig cefnogaeth ddwyieithog fel rhan o'i darpariaeth sgiliau astudio academiaidd a Mathemateg, gydag adnoddau ar-lein cynhwysfawr yn ogystal â chefnogaeth wyneb yn wyneb. Cynnigir sesiynau tiwtora un i un, seminarau ar gyfer grwpiau bach a gweithdai. Mae'r adnoddau ar-lein yn cynnig y cyfle i ddatblygu sgiliau iaith yn y Gymraeg o lefel ddechreuwr hyd at lefel hyfedredd. Mae hyn yn rhoi cyfle i fyfyrwyr ddatblygu eu sgiliau iaith yn eu hamser eu hunain. Yn yr un modd â'r prifysgolion eraill, trefnir sesiynau gloywi iaith i fyfyrwyr y Brifysgol fel rhan o baratodau'r Dystysgrif Sgiliau Iaith yn flynyddol. Mae'r ddwy ddisgyblaeth (Theatr a Drama a Chynhyrchu'r Cyfyngau) yn cynnig y modiwl 'Ymarfer Proffesiynol' sy'n cynnig cyfleoedd profiad gwaith a chyswllt pendant â chyflogwyr a'r diwydiant. Mae'r ddwy ddisgyblaeth yn trefnu rhaglen o siaradwyr gwadd ar gyfer pob tymor sy'n cyfoethogi profiad y myfyrwyr. Mae Prifysgol De Cymru wedi chwarae rhan allweddol mewn trefniadau ar gyfer gweithgareddau cydweithredol ac yn parhau i werthfawrogi cefnogaeth y Coleg Cymraeg er mwyn ariannu a chydlynu'r gweithgareddau hyn sy'n cyfoethogi profiad y myfyrwyr, megis Gŵyl MAP, Cynhadledd Theatr, Cwrs Cyfarwyddo a Dadansoddi Digwyddiad. Mae myfyrwyr ar y radd Cynhyrchu'r Cyfyngau wedi creu ffilmiau hyrwyddo i gyrsiau eraill yn y Brifysgol ac i'r Coleg Cymraeg.

Mae Canolfan Berfformio Cymru, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn cynnig graddau cyfrwng Cymraeg sy'n meithrin techneg gadarn yn y myfyrwyr law yn llaw â dealltwriaeth eang o'r diwydiannau creadigol yng Nghymru a thu hwnt. Clustnodir tiwtor personol i bob myfyriwr ac mae gan bob Cyfadran ei Chydlynnydd Academiaidd Arbenigol ei hun o fewn y Gwasanaethau myfyrwyr sy'n helpu trefnu cymorth ychwanegol. Cynhelir holl weithgarwch wythnosol y cyrsiau yn adeilad "The Gate" yn ardal Y Rhath. Yno, mae nifer o ofodau amlwrpas yn cynnwys theatr, dwy stiwdio ddawns gyda lloriau pwrpasol, a stiwdio ymarfer. Yn ogystal â hyn, mae caffi/bar yno er mwyn ymlacio a chymdeithasu. Mae'r myfyrwyr yn gallu manteisio ar y partneriaethau sydd ganddynt gyda Chanolfan Mileniwm Cymru a BBC Cymru. Mae'r ganolfan yn rhoi cyfleoedd cyson i'r myfyrwyr berfformio, defnyddio gofodau ymarfer, derbyn tocynnau i weld ymarferion gwisgoedd a thocynnau gostyngol i weld sioeau yn gyson. Mae'r berthynas â'r BBC yn galluogi'r myfyrwyr i gael profiad o weithio ar set broffesiynol Pobol y Cwm ym Mhorth Teigr ynghyd â'i galluogi i fynd ar gyfnodau o brofiad gwaith. Yn ogystal â'r profiadau hyn, mae nifer o gwmnïau teledu wedi'u lleoli yn y brifddinas sydd yn edrych yn gyson am gyfranwyr, ac maent bellach yn troi at Ganolfan Berfformio Cymru ar gyfer actorion a chantorion ifanc.

	<p>Ym Mhrifysgol Abertawe, cynigir gradd sengl BA Cyfryngau a Chysylltiadau Cyhoeddus a'r radd gyfun BA Cymraeg, Cyfryngau a Chysylltiadau Cyhoeddus. Caiff myfyrwyr sy'n dilyn y graddau cyfrwng Saesneg yn yr adran (<i>BA Media and Communication</i> a <i>BA Public Relations and Media</i>, a'r fersiynau blwyddyn mewn diwydiant) eu hannog i ddilyn modiwlau cyfrwng Cymraeg hefyd. Caiff pob myfyriwr sy'n nodi ei fod yn medru'r Gymraeg ei baru â mentor academiaidd cyfrwng Cymraeg ar gychwyn y flwyddyn academiaidd. Trefnir ymweliad maes yn ystod Wythnos y Glas er mwyn hyrwyddo cymuned o siaradwyr Cymraeg ar draws yr adran, yn staff a myfyrwyr; a cheir cyfle ar ddiwedd blwyddyn i ddathlu gwaith y myfyrwyr ar ffurf dangosiad cyhoeddus yn y Brifysgol. Caiff myfyrwyr eu cyfeirio at y Ganolfan Llwyddiant Academiaidd am gymorth gyda'u haseiniadau, ac mae gwasanaeth ar gyfer graddau cyfrwng Cymraeg ar gael. Cynghorir ar gynnwys y ddarpariaeth ar draws yr adran Cyfryngau a Chyfathrebu gan banel o gynrychiolwyr diwydiant, sy'n sicrhau bod y modiwlau a gynigir yn rhai cyfredol sy'n paratoi myfyrwyr yn bwrpasol at fyd gwaith. Mae mewnbwn diwydiant yn treiddio drwy'r profiad israddedig ac ôl-raddedig, ar ffurf asesiadau dilys (<i>authentic assessments</i>); asesiadau lle mae cynrychiolwyr diwydiant yn cynorthwyo gyda'r asesu megis 'pitch'; modiwl interniaeth sydd wedi ei gyd-drefnu gydag Academi Cyflogadwyedd y Brifysgol a chyfleoedd profiad gwaith allgyrsiol ar ffurf cynlluniau SPIN ac Wythnos o Waith. Mae darpariaeth yr adran newydd gael ei gosod yn yr unfed safle ar ddeg yn nhabl cynghrair <i>The Guardian 2018</i>. Derbyniodd yr adran ffigur boddhad myfyrwyr o 93.75% yn yr arolwg myfyrwyr cenedlaethol diwethaf (NSS 2017) gan roi'r adran yn yr wythfed safle yn y DU.</p>
<p><b>Darlithwyr</b></p>	<p>Mae gan Brifysgol Aberystwyth draddodiad cryf o ymchwil drwy gyfrwng y Gymraeg yn y Diwydiannau Creadigol. Cafwyd nifer o gyflwyniadau cyfrwng Cymraeg i'r REF diweddaraf yn y maes hwn ac mae traddodiad o arolygu traethodau doethurol cyfrwng Cymraeg gan yr Adran. Mae hyn wedi arwain at gymuned ymchwil cyfrwng Cymraeg gref yn y maes yn y Brifysgol a thraddodiad o ddysgu a arweinir gan ymchwil. Mae cynnal yr arbenigedd amrywiol cyfrwng Cymraeg o fewn yr Adran ym Mhrifysgol Aberystwyth yn bwysig o ran sicrhau'r profiad gorau i'r myfyrwyr, gan gynnig cyfle iddynt dderbyn addysg gan nifer o ddarlithwyr sy'n arbenigo mewn meysydd gwahanol. Mae hyn yn sicrhau dewis digonol drwy'r Gymraeg i'r myfyrwyr, cyfleoedd i arbenigo mewn meysydd gwahanol drwy gyfrwng y Gymraeg a'r cymysgedd priodol o fodiwlau damcaniaethol ac ymarferol.</p> <p>Ym Mhrifysgol Bangor mae'r sefyllfa bresennol yn foddhaol o ran capasiti, ond mae pob aelod o staff yn yr ysgol hon sydd yn dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg hefyd yn dysgu modiwlau drwy gyfrwng y Saesneg, ac mae adolygiad cyffredinol o sefyllfa staffio'r brifysgol yn cael ei gynnal ar hyn o bryd. Mae'r gymuned academiaidd yn un naturiol ddwyieithog, gydag oddeutu hanner y staff yn rhugl yn y Gymraeg. Cymraeg ydy</p>



iaith naturiol y swyddfa weinyddol a'r swyddfa dechnegol. Mae'r ysgol yn cynnwys staff sydd wedi gwneud cynnydd da iawn wrth ddysgu'r iaith.

Mae darlithwyr JOMEC ym Mhrifysgol Caerdydd wedi ymrwymo'n llwyr i feithrin hyder a datblygu sgiliau iaith sydd eu hangen o ddifrif o fewn y diwydiant, sy'n cyd-fynd â gweledigaeth Llywodraeth Cymru o gymdeithas hyderus a dwyieithog. Maent yn falch iawn o'u llwyddiant wrth ddenu myfyrwyr i ddilyn modiwlau cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys darbwyllo'r rheiny sy'n llai hyderus yn y Gymraeg i ddewis y ddarpariaeth. Mae darlithwyr Cymraeg JOMEC yn arbenigwyr cydnabyddedig sydd â chyfoeth o brofiad ym myd y cyfryngau a chyfathrebu gyda chysylltiadau helaeth o fewn y diwydiant hwnnw a'r byd gwleidyddol yng Nghymru. Mae eu llwyddiant wedi cael ei gydnabod gan enwebiad 'Cyfoethogi Bywyd Myfyrwyr', ac yn 2017 enillodd un o'r darlithwyr un o Wobrau Dathlu Rhagoriaeth y Brifysgol.

Ym Mhrifysgol De Cymru, mae'r gymuned academiaidd yn y Diwydiannau Creadigol yn parhau i ddatblygu yn y Gyfarwyddiaeth newydd o fewn y Gyfadran - Y Gyfarwyddiaeth Perfformio a Chynhyrchu. Rhyngddynt, mae staff sy'n addysgu drwy'r Gymraeg yn arwain ymchwil o fewn Y Ganolfan Ymchwil i Gyfryngau a Diwylliant mewn Cenhedloedd Bach ac yn datblygu enw rhyngwladol ym maes perfformio a Chymreictod. Mae un darlithydd wedi cwblhau MA mewn Sgriptio ac un darlithydd wedi derbyn nawdd gan Y Ganolfan Ymchwil a fydd yn ei galluogi i gwblhau doethuriaeth. Mae'r staff academiaidd eraill oll yn ymarferwyr ac academyddion profiadol a chanddynt adnabyddiaeth ddofn o'r diwydiant.

Mae cwrs BA Perfformio'r Drindod Dewi Sant yn manteisio ar brofiad tiwtoriaid sy'n gweithio yn eu diwydiannau. Mae myfyrwyr yn cael eu haddysgu gan ymarferwyr proffesiynol sy'n arbenigwyr yn eu maes ac sy'n gallu cynnig nid yn unig wybodaeth fanwl a thrylwyr, ond hefyd brofiad personol a mewnwleidiad i'r diwydiant perfformio fel y mae heddiw.

Mae pedwar o ddarlithwyr yr adran ym Mhrifysgol Abertawe yn cyfrannu at y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, ar lefel israddedig ac ôl-raddedig. Mae'r pedwar wedi ennill cymrodoriaeth gan yr Academi Addysg Uwch, gyda thri ar lefel Cymrawd ac un yn Gymrawd Hŷn. Ceir teimlad o gymuned cyfrwng Cymraeg o fewn yr adran, gyda chyfrif Twitter a Facebook cyfrwng Cymraeg (ar wahân i'r un Saesneg) yn hwyluso'r ethos hwn, ac mae'r daith maes ar gychwyn blwyddyn yn fodd o hyrwyddo hyn hefyd. Nodir bod y pedwar darlithydd yn weithgar fel ymchwilwyr, gan gyfrannu at raglen cyflwyniadau ymchwil yr adran. Mae dau yn brofiadol ac yn cyhoeddi, mae un yn gweithio tuag at ddoethuriaeth ac un arall – er nad yw'n gweithio at ddoethuriaeth – yn cydweithio ag aelodau o'r adran ar brosiectau ymchwil. At hynny, try'r cyfryngau atynt yn gyson er mwyn gofyn iddynt gyfrannu at raglenni teledu a radio. Mae dau o'r darlithwyr yn meddu ar brofiad eang yn y Diwydiannau Creadigol ac mae eu cysylltiadau â'r diwydiannau hynny'n parhau.

<p><b>Cwricwlwm</b></p>	<p>Ystyrir bod angen rhoi mwy o gyfle i fyfyrwyr rannu eu profiadau, a mynegi eu safbwyntiau ynglŷn â'r ddarpariaeth bresennol a'r cyfleoedd astudio yn y maes. Byddai barn y myfyrwyr yn gymorth i'r prifysgolion ystyried eu sefyllfa'n wrthrychol.</p> <p>Ym Mhrifysgol Bangor, yr un yw'r patrwm sylfaenol ar gyfer y fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r modiwlau, ond fod y modiwlau Cymraeg yn cynnwys enghreifftiau Cymraeg yn ogystal â rhai Saesneg, ynghyd â ieithoedd eraill lle bo hynny'n briodol. Mae'r sefyllfa yn amrywio o fodiwl i fodiwl, ac felly hefyd o ran yr elfen Gymreig o fewn modiwlau a ddysgir yn Gymraeg ac yn Saesneg.</p> <p>Mae enw gwych rhyngwladol JOMEC ym Mhrifysgol Caerdydd fel canolfan o ragoriaeth mewn addysgu ac ymchwil yn allweddol wrth ddenu myfyrwyr galluog a thalentog sy'n siarad Cymraeg. Bydd yr adleoliad i bencadlys newydd yn Sgwâr Canolog, mewn partneriaeth â BBC Cymru, yn cryfhau ymhellach y cysylltiadau gyda'r diwydiant. Mae'r radd gydanrhydedd Cymraeg a Newyddiaduraeth (sefydliwyd yn 2015) yn denu myfyrwyr nad ydynt wedi astudio Safon Uwch Cymraeg. Ar lefel ôl-raddedig gall myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg ddewis modiwl 10 credyd dewisol ac maent hefyd yn elwa drwy hyfforddiant ymarferol rheolaidd. Yn dilyn penodiad dan Cynllun Staffio'r Coleg Cymraeg datblygwyd modiwl cyfathrebu newydd sy'n gwerthuso ymgyrchoedd cyfredol yng Nghymru. Derbyniodd y modiwl cydweithredol '<u>Y Senedd, y Straeon a'r Spin</u>' sylw'r wasg am ei ymdrechion i herio'r cysyniad o 'newyddion ffug'. Mae'r modiwl, a ddatblygwyd ar y cyd â Phrifysgol Abertawe gyda chefnogaeth ariannol gan y Coleg Cymraeg, yn cynnig cyfle i fyfyrwyr blwyddyn gyntaf gael profiadau gwerthfawr wrth glywed a phrofi'r heriau sy'n wynebu newyddiadurwyr a chyfathrebwyr trwy ymweliadau diwydiant ac asesu arloesol.</p> <p>Ym Mhrifysgol De Cymru mae'r cyrsiau, er nad ydynt yn gwbl annibynnol o'r cwrs cyfatebol yn Saesneg, yn rhoi ystyriaeth lawn i hunaniaeth Gymraeg a Chymreig. Mae'r perfformiadau a'r gwaith annibynnol yn adlewyrchu'r ddealltwriaeth a'r sail hon ac mae nifer o'r myfyrwyr wedi graddio a sefydlu cwmnïau perfformio a chynhyrchu sydd wedi'u gwreiddio yn yr ethos hwn.</p> <p>Mae BA Perfformio yn gwrs anrhydedd a ddysgir yn ddwys dros ddwy flynedd. Canolbwyntir ar bedair agwedd ar ddatblygiad perfformwyr y dyfodol; Actio, Canu, Dawnsio a'r Diwydiant. Mae'r cwrs yn y Drindod Dewi Sant wedi'i greu yn fwriadol i ddatblygu sgiliau a fydd yn helpu'r myfyrwyr i greu eu cyfleoedd gwaith eu hunain neu i gael gwaith yn y Diwydiannau Creadigol. Un o gryfderau'r cwrs yw'r trawstoriad eang o diwtoriaid o'r Diwydiannau Creadigol sy'n gweithio gyda'r myfyrwyr. Maen nhw'n barod iawn i roi cymorth a chefnogi datblygiad gyfaol y myfyrwyr. Mae'r myfyrwyr yn derbyn hyfforddiant ar ddatblygu eu CV ar gyfer</p>

	<p>gweithio yn hunangyflogedig, a chreu eu gwaith eu hunain. Mae'r oriau hir a dwyster y cwrs hefyd yn rhoi sylfaen gref i weithio yn y diwydiant. Mae'r cwrs yn cael ei redeg dros chwe chyfnod dysgu penodol, dau gyfnod ar gyfer pob lefel academiaidd. Bydd y cyfnodau hyn yn para tua 12 wythnos yr un.</p> <p>Mae'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn Adran Cyfryngau a Chyfathrebu Prifysgol Abertawe yn gyfuniad o fodiwlau academiaidd ac ymarferol, sydd wedi datblygu'n lled annibynnol o'r ddarpariaeth cyfrwng Saesneg. Nod yr agwedd ymarferol cyfrwng Cymraeg yw paratoi myfyrwyr at fyd amlblatfform, a sicrhau eu bod yn graddio yn unigolion sy'n medru troi eu llaw at amrywiaeth o gyfryngau cyfathrebu a phlatfformau. Maent wedi datblygu ar y cyd â Phrifysgol Caerdydd, sef Y Senedd, y Straeon a'r Spin, ac mae'r myfyrwyr wedi cael budd mawr o ddilyn y cwrs hwn a chymdeithasu gyda myfyrwyr eraill. Mae cynrychiolwyr diwydiant yn cael mewnbwn i ddatblygiad cwricwlwm ac yn cyfrannu at y broses asesu ar rai modiwlau, ac mae hyn yn ychwanegiad amhrisiadwy sy'n gwneud y modiwlau ymarferol yn berthnasol i sefyllfa gyfredol y diwydiannau creadigol a chyfathrebu yng Nghymru heddiw.</p>
<p><b>Canlyniadau Myfyrwyr</b></p>	<p>Ym Mhrifysgol Bangor mae canlyniadau'r myfyrwyr Cymraeg eu hiaith, a'r myfyrwyr sy'n dilyn modiwlau Cymraeg a dwyieithog yn yr Ysgol Astudiaethau Creadigol a'r Cyfryngau, yn gyson â'r patrwm cyffredinol o fewn yr ysgol.</p> <p>Yn JOMEC ym Mhrifysgol Caerdydd, mae'r mwyafrif helaeth o fyfyrwyr sy'n ymwneud â'r ddarpariaeth Gymraeg yn perfformio ar lefel uchel. Nodwyd y bydd mwy o ddata dibynadwy ar gael wrth i fwy o fyfyrwyr sy'n dilyn y ddarpariaeth raddio.</p> <p>Yn y ddau faes dan sylw ym Mhrifysgol De Cymru, derbyniodd 93% radd 2:1 neu uwch yn 2016-17.</p> <p>Dim ond un carfan o fyfyrwyr y Drindod Dewi Sant sydd wedi graddio o'r cwrs hyd yn hyn gyda phob myfyriwr yn llwyddo i gael gradd 2:1 neu uwch. O'r 12 myfyriwr, mae 8 ohonynt bellach mewn gwaith o fewn y diwydiannau a 2 ar fin mynd ymlaen i astudio ymhellach o fewn y maes.</p> <p>Mae perfformiad myfyrwyr cyfrwng Cymraeg Adran Cyfryngau a Chyfathrebu, Prifysgol Abertawe, yn gyson â myfyrwyr darpariaeth Saesneg, neu'n well. Ers 2016, derbyniodd 80% o raddedigion yr adran sydd wedi astudio drwy gyfrwng y Gymraeg radd 2:1 neu uwch.</p>
<p><b>Adnoddau</b></p>	

	<p>Mae'r Coleg wedi cyllido datblygiadau mewn disgyblaethau penodol er mwyn ymateb i brinder adnoddau cyfrwng Cymraeg. Mae manylion llawn am y datblygiadau hyn i'w canfod yn Llyfrgell y Coleg. Mae toreth o adnoddau yn y categori <a href="#">Celfyddydau</a> sy'n cynnwys dramâu wedi eu digideiddio, clipiau o amryw weithgareddau cydweithredol, cyfweiliadau gan gynrychiolwyr o'r diwydiant, ynghyd ag ysgrifau ac erthyglau academaidd. Mae hefyd adnoddau ar yr <a href="#">Esboniadur</a>, megis adnoddau prosiect <b>Yn y Ffrâm</b> sy'n dwyn teitl <i>Ffilm a Theledu Cymru</i> yn yr Esboniadur. Yno ceir gwybodaeth a dadansoddiadau o ffilmiau, animeiddiadau a chyfresi teledu, a phroffiliau o unigolion dylanwadol o'r diwydiant. Pwysleisir bod angen mewngofnodi i gael mynediad llawn at yr holl adnoddau ar lwyfannau e-ddysgu'r Coleg Cymraeg.</p> <p>Mae <a href="#">Syniad i'r Sgrin</a> yn gyfrol ymarferol ar gyfer creu cynnwys creadigol gweledol ac mae'n enghraifft ddiweddar o brosiect dan nawdd y Coleg Cymraeg. Enillodd yr adnodd <a href="#">wobr CADARN</a> yn 2016 am y Teclyn Addysgu Mwyaf Effeithiol.</p> <p>Mae'r Coleg yn cyllido a chefnogi prosiect Esboniadur Newyddiaduraeth, a gaiff ei gyhoeddi yn ystod haf 2018. Lanswyd <a href="#">Cist Offer Newyddiaduraeth</a> ar Lyfrgell Adnoddau'r Coleg yn ystod 2017/18.</p> <p>Yn ogystal, mae'r Coleg Cymraeg – mewn partneriaeth â S4C ac mewn ymgynghoriad â darlithwyr ym mhob sefydliad – yn cynnig archif o gyfresi drama a rhaglenni ffeithiol yn y <a href="#">Llyfrgell y Coleg</a> (rhaid mewngofnodi i gael mynediad at yr archif).</p> <p>Mewn cyfarfod panel Diwydiannau Creadigol ar 18 Ebrill 2018, cynhaliwyd trafodaeth ynghylch yr adnoddau a'r prosiectau sydd eu hangen yn y maes Diwydiannau Creadigol. Caiff y syniadau hynny eu datblygu a'u trafod ymhellach o fewn y Coleg yn ystod tymor yr haf a bydd proses gomisiynu yn mynd rhagddo dros y misoedd nesaf. Nodwyd na fydd modd cefnogi pob syniad a bod angen blaenoriaethu prosiectau fesul is-faes o fewn y Diwydiannau Creadigol.</p>
<p><b>Galw gan Gyflogwyr a Chyflogadwyedd</b></p>	<p>Mae'r Diwydiannau Creadigol yn cwmpasu amrywiaeth eang o sectorau a swyddi, sy'n gallu cynnwys y maes Celf a Dylunio. O'r herwydd, mae'n anodd canfod tystiolaeth o ran gofynion penodol pob disgyblaeth.</p> <p>Yn ôl gwefan Gyrfa Cymru:<sup>4</sup></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae 1/3 o holl swyddi creadigol yng Nghymru wedi'u lleoli yng Nghaerdydd.</li> <li>• Mae 68% o'r gweithlu creadigol yng Nghymru yn meddu ar gymhwyster lefel gradd.</li> </ul>

<sup>4</sup> <https://www.careerswales.com/server.php?show=nav.9048&outputLang=Tr1>

- Mae tua 3,600 o fusnesau yng Nghymru yn y diwydiannau creadigol.
- Erbyn 2017, bydd 7,000 o swyddi creadigol eraill yng Nghymru; bydd hanner y rhain yn swyddi newydd oherwydd twf yn y diwydiant.

Yn ôl ystadegau Llywodraeth Cymru,<sup>5</sup> mae 84,000 o bobl yn gweithio yn yr 'economi greadigol' yng Nghymru. O'r rhain, mae bron i 53,000 yn gweithio yn y diwydiannau creadigol.

Roedd cyfradd cyflogaeth myfyrwyr a raddiodd o gyrsiau Astudiaethau'r Cyfryngau a chysiau'r Celfyddydau Perfformio yn 2010 yn uwch na ffigwr cyfartalog pynciau eraill; ond roedd cyfradd diweithdra'r pynciau hyn yn uwch hefyd. Roedd llai o raddedigion yn mynd ymlaen i astudio pellach neu hyfforddiant ym maes y pynciau creadigol.

<b>Pwnc</b>	<b>% mewn cyflogaeth</b>	<b>% di-waith</b>
Celfyddydau Perfformio	64.1%	8.7%
Astudiaethau'r Cyfryngau	67.1%	14.1%
Pob Pwnc	62.2%	8.5%

O ran sgiliau ieithyddol, mae Gyrfa Cymru<sup>6</sup> yn nodi:

“Mae gan y cyfryngau a'r celfyddydau perfformio yng Nghymru amlygrwydd dwyieithog cryf eisoes. Roedd y sector galwedigaethol hwn wedi'i gydnabod yn Adroddiad Sgiliau Dyfodol Cymru 2005 fel sector lle byddai'r galw mwyaf am siaradwyr Cymraeg yn y dyfodol.

Mae bodolaeth S4C a BBC Cymru wedi creu cyfleoedd gyrfa i bobl sydd â sgiliau dwyieithog, nid yn unig yng Nghymru ond ar draws y wlad mewn cwmnïau megis Tinopolis a Telesgôp. Ar ben hynny, mae Theatr Genedlaethol Cymru wedi darparu plattform go-iawn i actorion Cymraeg eu hiaith i ymarfer eu crefft drwy Gymru gyfan”.

Mae'r Theatr Genedlaethol wedi creu ffilm [fer](#) yn nodi'r sgiliau a'r profiadau sy'n bwysig, gyda phwyslais ar y Gymraeg.

<sup>5</sup> <http://gov.wales/topics/businessandconomy/our-priority-sectors/creative-industries/?skip=1&lang=cy>

<sup>6</sup> <http://www.careerswales.com/cy/offer-ac-adnoddau/dewis-da-y-gymraeg-yn-y-gweithle/sectorau-blaenoriaeth-allweddol-llywodraeth-cymru/y-cyfryngau-a-r-celfyddydau-perfformio/>

Mae Cyfeiriadur Celf Cyngor y Celfyddydau yn ffynhonnell ar gyfer chwilio ymarferwyr, digwyddiadau a chyfleoedd/swyddi yn y maes Diwydiannau Creadigol: <http://www.celfcymru.org/celf-yng-nghymru/cyfeiriadur-celf>

Canfu arolwg Cyrchfan Ymadawyr 2014 o Addysg Uwch fod mwy na 96% o raddedigion JOMECC mewn cyflogaeth neu'n astudio ymhellach chwe mis ar ôl graddio. Gan fod darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn newydd, nid yw JOMECC eto wedi cynhyrchu graddedigion sydd wedi dilyn y llwybr dysgu Cymraeg mwy cynhwysfawr.

Mae gan ddarlithwyr JOMECC Cymraeg berthynas ragorol â'r diwydiant yng Nghymru – yn rhannol oherwydd eu profiad blaenorol o weithio yn y cyfryngau a chyfathrebu ac am eu bod yn parhau i ymarfer yn broffesiynol o fewn y sector ac yn parhau i gyfrannu at y diwydiannau hynny. Mae eu dealltwriaeth o anghenion cyflogaeth yn gyfredol, ac o ganlyniad mae gan bob elfen o'r ddarpariaeth gyswllt pendant â'r byd gwaith. Mae hyn yn golygu eu bod yn gweithio mewn partneriaeth â chyflogwyr, i gasglu gwybodaeth er mwyn nodi anghenion y dyfodol a sgiliau graddedigion.

Mae'r gyfadran Diwydiannau Creadigol ym Mhrifysgol De Cymru yn cynnig modiwlau profiad gwaith sydd yn sicrhau cysylltiad cryf â'r diwydiant. Mae'r ddwy ddisgyblaeth yn manteisio ar bob cyfle i greu a chynnal cysylltiadau â'r byd gwaith, ac yn cymryd mantais o bob cyfle lle y bo modd e.e. galluogi myfyrwyr blwyddyn 1af i fod yn rhan o gynhyrchiad Macbeth, Theatr Genedlaethol Cymru. O safbwynt Theatr a Drama, mae'r myfyrwyr wedi creu prosiectau penodol yn ogystal (sy'n gysylltiedig, er nad yn rhan o fodiwlau penodol e.e. Prosiect Sgriptio i animeiddio/ymarfer proffesiynol gyda *ClothCat*). Mae nifer o ymarferwyr (actorion, cyfarwyddwyr artistig, cyfarwyddwyr cwmnïau, cynhyrchwyr, newyddiadurwyr ayb) yn ymwneud â'r cwrs Theatr a Drama a Chynhyrchu'r Cyfryngau drwy ddarlithio a/neu drwy gynnal gweithdai drwy gydol y flwyddyn. Mae'r adran Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd yn cydlynu nifer o ddigwyddiadau i fyfyrwyr gael cyswllt pendant â chyflogwyr, megis y Ffair Cyflogadwyedd a drefnir yn flynyddol. Mae aelod o staff cyfrwng Cymraeg yn y tîm lleoliadau gwaith sy'n cefnogi myfyrwyr y Diwydiannau Creadigol yn bennaf. Trefnwyd Ffair Cyflogadwyedd cyfrwng Cymraeg cyntaf y Brifysgol ym mis Tachwedd 2016.

Fel y nodwyd eisoes, mae aelodau'r panel diwydiant a sefydlwyd yn 2013 yn cynghori ynghylch y ddarpariaeth yn Adran Cyfryngau a Chyfathrebu Prifysgol Abertawe. Mae sefydlu'r panel yn ddatblygiad a dalodd ar ei ganfed o ran sicrhau bod y ddarpariaeth yn gyfredol, o ran cyfleoedd a ddaw i ran myfyrwyr drwy aelodau'r panel, ac o ran marchnata. Trefnir cyfarfodydd y panel ar adegau penodol er mwyn sicrhau bod modd ymgorffori newidiadau i'r cwricwlwm ar adegau allweddol, ac er mwyn ymateb i ofynion diwydiant sy'n newid yn gyson. Mae perthnasedd byd gwaith yn rhan ganolog nid yn unig i'r modiwlau ymarferol, ond i

	<p>rai modiwlau academaidd yn ogystal, e.e. lle y gofynnir am asesiad astudiaeth achos, neu ymdriniaeth â syniad creadigol. Sgil effaith hyn yw bod myfyrwyr yn gwbl gyfarwydd â'r byd gwaith erbyn eu bod yn graddio, a'u bod yn ymwybodol o'r personél a'r cwmnïau allweddol yn y diwydiannau perthnasol. O ran graddedigion yr adran, dengys y <i>Complete University Guide</i> ar gyfer 2019 bod Prifysgol Abertawe yn y 12<sup>fed</sup> safle yn y DU ar gyfer Rhagolygon Gyrfa gyda 75% yn llwyddo i gael swydd ar ôl graddio, yr uchaf yng Nghymru.</p> <p>Mae'r mentrau megis WoW (Wythnos o Waith) a SPIN yn cynnig cyfleoedd profiad gwaith allgyrsiol, a threfnir y rhain ar y cyd â'r Academi Cyflogadwyedd gan sicrhau profiadau cyfrwng Cymraeg i fyfyrwyr. Mae'r naill yn brofiad di-dâl, ond gyda chymorth tuag at gostau, a'r llall yn brofiad estynedig gyda thâl.</p> <p>Yn asesiad TEF 2017, nododd Prifysgol Abertawe fod niferoedd graddedigion iaith Gymraeg ar draws y sefydliad a astudiodd yn llawn-amser dros dair blynedd, sydd bellach mewn gwaith neu'n astudio ymhellach, yn 84.6%, sef +5% pwynt yn uwch na myfyrwyr llawn amser eraill y Brifysgol. Yn asesiad TEF 2018, lle y dyfarnwyd safon Aur i Brifysgol Abertawe, rhoddwyd sylw i'r modd y mae metrics cyflogadwyedd myfyrwyr cyfrwng Cymraeg y sefydliad yn ennill fflag ddwbl.</p>
<p><b>Cynaliadwyedd a Dilyniant</b></p>	<p>Mae'r Coleg wedi darparu cefnogaeth ariannol bur sylweddol i'r prifysgolion yn y maes hwn, a rhaid gofyn i ba raddau y buasai'r ddarpariaeth wedi bod yn gynaliadwy ac yn hyfyw heb y lefelau hynny o gefnogaeth ariannol. Serch hynny, caiff nifer o'r swyddi a oedd dan nawdd Cynllun Staffio'r Coleg Cymraeg eu cynnal gan y prifysgolion unigol erbyn hyn. Mae rhai swyddi yn parhau dan nawdd y Cynllun Staffio tan ddiwedd blwyddyn academaidd 2017/18 a 2018/19.</p> <p>Gan fod nifer eithaf uchel o fyfyrwyr yn dewis astudio'r pynciau hyn, ymddengys fod yr heriau perthnasol i ddilyniant yn llai difrifol nag mewn rhai meysydd. Yn gyffredinol, mae'r patrwm dilyniant yn amrywiol gyda rhai myfyrwyr wedi astudio pynciau Safon Uwch traddodiadol a llai traddodiadol. Mae un prifysgol yn nodi bod yna fyfyrwyr o gefndir cyrsiau galwedigaethol (ee BTEC) yn dilyn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.</p> <p>Mewn rhai achosion, nid oes cymhwyster Safon Uwch yn bodoli yn y pwnc ac mae hyn yn gallu cynnig heriau a chyfleoedd o ran recriwtio. Ceir enghreifftiau da o ddatblygu graddau cyfun gyda phynciau 'traddodiadol' lle y ceir darpariaeth Safon Uwch.</p>

Yn 2014, cytunodd Llywodraeth Cymru i bob un o ddeuddeg argymhelliad adroddiad yr Athro Dai Smith ar arolygiad Y Celfyddydau mewn Addysg yn Ysgolion Cymru (2013). Datblygwyd y Cynllun Gweithredu Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau er mwyn gweithredu'r argymhellion. Mae [NAWR](#) ac [EDAU](#) yn ddwy enghraifft o'r rhwydweithiau rhanbarthol sy'n rhoi'r cynllun ar waith. Er nad yw'r cynllun yn hyrwyddo dilyniant o reidrwydd, mae'n sicr yn rhoi pwyslais ar bwysigrwydd y celfyddydau a gallai hyn arwain at annog mwy o ddisgyblion i ddilyn llwybr academaidd yn y diwydiannau creadigol.

Serch hynny, nodir bod angen mwy o wybodaeth ar ddarpar fyfyrwyr o ran beth y gall y maes Diwydiannau Creadigol ei gynnig, a bod angen newid agweddau cyffredinol tuag at 'werth' y maes, gan bwysleisio cyfraniad perfformwyr, cynhyrchwyr, newyddiadurwyr ag ati at yr economi yng Nghymru. Hefyd, mae angen pwyslais ar werth a budd y Gymraeg wrth fynd ati i hyrwyddo'r maes.

Mae 6 darlithydd llawn amser yn dysgu modiwlau Cymraeg o fewn yr Ysgol Astudiaethau Creadigol a'r Cyfryngau ym Mhrifysgol Bangor (un o'r swyddi sy'n cael ei chefnogi yn rhannol gan y Coleg Cymraeg), gan ddysgu modiwlau cyfrwng Saesneg hefyd, fel y nodwyd eisoes. Yr her yw sicrhau bod digon o fyfyrwyr yn dewis y modiwlau hyn fel eu bod yn hyfyw o ran niferoedd, gan farchnata a hyrwyddo beth sydd ar gael, ynghyd â manteision dilyn y pynciau hyn drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog. Mae cyfran uchel o'r myfyrwyr dwyieithog yn ddihyder o ran safon eu Cymraeg ysgrifenedig yn arbennig. Mae pob un o'r modiwlau Diwydiannau Creadigol yn Ysgol y Gymraeg, ar wahân i un yn y flwyddyn gyntaf, yn cael eu dysgu gan ddarlithydd Coleg Cymraeg Cenedlaethol sydd yn cynnig darpariaeth i'r ddwy ysgol.

Mae Prifysgol De Cymru yn edrych ar opsiynau datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws y gyfadran er mwyn ceisio sicrhau cynaliadwyedd. Mae'r Brifysgol yn monitro niferoedd myfyrwyr yn gyson, ac mae targed o 10 ym mhob blwyddyn wedi ei osod ar gyfer cyrsiau cyfrwng Cymraeg y Diwydiannau Creadigol. Mae cwrs ôl-radd MA Drama ar gael ym Mhrifysgol De Cymru lle y gellir cyflwyno gwaith prosiect drwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, mae trafodaethau ar y gweill i ddatblygu'r ddarpariaeth hon. Mae cwrs MA Cynhyrchu Ffilm ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg hefyd ac mae 60 credyd wedi ei ddilysu.

O ran dilyniant i astudiaethau ôl-radd, roedd gan yr Adran ym Mhrifysgol Aberystwyth gwrs MA a addysgir 100% drwy'r Gymraeg tan yn ddiweddar a oedd yn denu rhyw 5-6 myfyriwr bob blwyddyn. Fodd bynnag, gyda newid yn y drefn o ariannu graddau meistr a addysgir, nid oedd y cynllun yn denu niferoedd digonol i'w redeg. Gobeithir rhedeg fersiwn ddiwygiedig o'r cynllun eto yn y dyfodol. Mae'r Adran yn cynnig cyfleoedd i astudio ar lefel ddoethurol drwy'r Gymraeg, gyda chyllid yn dod o nifer o ffynonellau, megis KESS, ESF a'r Coleg Cymraeg.



	<p>Ers mis Medi 2018, sefydlwyd dilyniant ôl-raddedig yng Nghanolfan Berfformio Cymru (Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant) gyda chyrsgiau MA Theatr (Cyfarwyddo) a MA Theatr (Perfformio).</p> <p>Mae pedwar darlithydd ym Mhrifysgol Abertawe sy'n cyfrannu at y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ogystal â'r Saesneg, ar lefel israddedig ac ar lefel ôl-raddedig. Darperir o leiaf 80 credyd cyfrwng Cymraeg ar bob lefel, ac maent yn archwilio cyfleoedd i ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar lefel ôl-raddedig, gan gynnig dilyniant i'r myfyrwyr hynny sydd eisoes yn astudio yn y brifysgol.</p>
--	---

<b>Blaenoriaethau cynllunio cenedlaethol</b>			
<b>Nod gweithredu</b>	<b>Targedau blwyddyn (2017/18)</b>	<b>Targedau 3 mlynedd (2019/20)</b>	<b>Targedau 5 mlynedd (2021/22)</b>
1. Darpariaeth	Datblygu cyrsiau a'r ddarpariaeth mewn modd sydd yn ymateb i anghenion y diwydiant.	Targed parhaol	Targed parhaol
i) Cyrsiau israddedig	Datblygu 'USP' ar gyfer y ddarpariaeth ym mhob sefydliad er mwyn dangos sut mae'r cyrsiau a'r lleoliadau yn wahanol, ac felly yn debygol o apelio at gynulleidfaoedd gwahanol.		
ii) Cyrsiau ôl-raddedig	Ystyried y math o gefnogaeth y gellid ei gynnig i sefydlu neu ehangu darpariaeth ôl-raddedig, er mwyn: <ul style="list-style-type: none"> <li>(i) Cynnig dilyniant i'r ddarpariaeth israddedig, gan ddarparu cyfle i fyfyrwyr ddatblygu eu sgiliau ymhellach ac arbenigo mewn agweddau penodol ar y diwydiannau creadigol;</li> <li>(ii) Darparu cyfleoedd i fyfyrwyr sydd wedi</li> </ul>	Gwerthuso'r ddarpariaeth ôl-raddedig ac ystyried y math o gefnogaeth y gellid ei gynnig er mwyn cynnal y ddarpariaeth.	Gwerthuso'r ddarpariaeth ôl-raddedig ac ystyried y math o gefnogaeth y gellid ei gynnig er mwyn cynnal y ddarpariaeth.

	graddio mewn meysydd eraill er mwyn datblygu sgiliau / arbenigedd mewn proffesiynau penodol o fewn y diwydiannau creadigol.		
2. Nifer Darlithwyr	Y prifysgolion i berchnogi a chynnal y ddarpariaeth ar derfyn 5 mlynedd o fuddsoddiad drwy'r Cynllun Staffio.	Y prifysgolion i berchnogi a chynnal y ddarpariaeth ar derfyn 5 mlynedd o fuddsoddiad drwy'r Cynllun Staffio.	Y prifysgolion i barhau i berchnogi a chynnal y ddarpariaeth.
3. Nifer Myfyrwyr	<p>Mae'r targedau isod yn seiliedig ar ddata HESA 2016/17. Mae'r data yn gronnus:</p> <p>350 yn astudio rhywfaint drwy gyfrwng y Gymraeg</p> <p>150 yn astudio 40 credyd+</p> <p>130 yn astudio 80 credyd+</p> <p>110 yn astudio 120 credyd.</p>	<p>10% o gynnydd ar dargedau 2017/18:</p> <p>385 yn astudio rhywfaint drwy gyfrwng y Gymraeg</p> <p>165 yn astudio 40 credyd+</p> <p>143 yn astudio 80 credyd+</p> <p>121 yn astudio 120 credyd.</p>	<p>20% o gynnydd ar 2017/18:</p> <p>420 yn astudio rhywfaint drwy gyfrwng y Gymraeg</p> <p>180 yn astudio 40 credyd+</p> <p>156 yn astudio 80 credyd+</p> <p>132 yn astudio 120 credyd.</p>
4. Profiad myfyrwyr (a darlithwyr)			
i) Cynnig cyfleoedd i fyfyrwyr a	Cynnal gweithgareddau theatr a drama yn flynyddol. Cynllunio'r gweithgareddau yn dilyn adborth y	Cynnal gweithgareddau theatr a drama yn flynyddol. Cynllunio'r gweithgareddau yn dilyn adborth y	Cynnal gweithgareddau theatr a drama yn flynyddol. Cynllunio'r gweithgareddau yn dilyn adborth y

darlithwyr ddod at ei gilydd i rannu gwaith a phrofiadau ac i elwa ar arbenigedd ymarferwyr	<p>myfyrwyr, darlithwyr a'r Swyddog Pwnc.</p> <p>Sicrhau ymrwymiad y sefydliadau i'r gweithgareddau drwy gynllunio ymhell o flaen llaw (yn dilyn y model ar gyfer 2017/18 – gweler gohebiaeth y Swyddog Pwnc at y darparwyr).</p> <p>Ystyried ceisiadau i gronfeydd y Coleg yn flynyddol.</p>	<p>myfyrwyr, darlithwyr a'r Swyddog Pwnc.</p> <p>Sicrhau ymrwymiad y sefydliadau i'r gweithgareddau drwy gynllunio ymhell o flaen llaw (yn dilyn y model ar gyfer 2017/18 – gweler gohebiaeth y Swyddog Pwnc at y darparwyr).</p> <p>Ystyried ceisiadau i gronfeydd y Coleg yn flynyddol.</p>	<p>myfyrwyr, darlithwyr a'r Swyddog Pwnc.</p> <p>Sicrhau ymrwymiad y sefydliadau i'r gweithgareddau drwy gynllunio ymhell o flaen llaw (yn dilyn y model ar gyfer 2017/18 – gweler gohebiaeth y Swyddog Pwnc at y darparwyr).</p> <p>Ystyried ceisiadau i gronfeydd y Coleg yn flynyddol.</p>
5. Cwricwlwm a Chyflogadwyedd	Sefydlu fforwm addas er mwyn casglu barn myfyrwyr (a chyn-fyfyrwyr) ar y ddarpariaeth a sut i'w datblygu i'r dyfodol er mwyn ymateb i ofynion y diwydiant.	Proses barhaol.	Proses barhaol.
6. Adnoddau	<p>Penderfynu ar flaenoriaethau ym mhob un o'r is-feysydd.</p> <p>Dilyn proses gomisiynu adnoddau'r Coleg Cymraeg (gweler tudalen 11 'Adnoddau').</p> <p>Yr union fodelau i'w penderfynu wrth gomisiynu'r adnoddau e.e. pwy sy'n gyfrifol am wahanol elfennau o'r gwaith, amserlen, cyllid ayyb (dylid cyfeirio nôl at gofnodion y panel Diwydiannau Creadigol 18/04/2018 er mwyn cael amlinelliad o'r broses gomisiynu).</p>	<p>Creu, dosbarthu, hyrwyddo a gwerthuso unrhyw adnoddau sydd wedi eu comisynu.</p> <p>Dilyn y broses o adnabod bylchau a chomisiynu ar sail tystiolaeth o'r anghenion (hyn yn ddibynol ar gyllid a blaenoriaethau'r Coleg Cymraeg).</p>	<p>Creu, dosbarthu, hyrwyddo a gwerthuso unrhyw adnoddau sydd wedi eu comisynu.</p> <p>Dilyn y broses o adnabod bylchau a chomisiynu ar sail tystiolaeth o'r anghenion (hyn yn ddibynol ar gyllid a blaenoriaethau'r Coleg Cymraeg).</p>

<p>7. Dilyniant</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Rhwydweithio</li> <li>▪ Hyrwyddo 'USP' a'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg</li> <li>▪ Codi hyder yn y Gymraeg</li> </ul>	<p>Adnabod a chymryd cyfleoedd i rwydweithio gyda fforymau allanol e.e. Cyngor y Celfyddydau.</p> <p>Darparu enwau unigolion i'r Coleg Cymraeg er mwyn creu cronfa o gyn-fyfrwyr, y gellid eu proffilio drwy amryw o gyfryngau a phlatfformau (e.e. clipiau, cardiau 'Twitter'). Elwa ar ddoniau myfyrwyr presennol i greu'r proffiliau (e.e. myfyrwyr Cynhyrchu'r Cyfryngau yn ffilmio).</p> <p>Swyddogion Cangen i sicrhau bod y <a href="#">Dystysgrif Sgiliau Iaith</a> yn cael ei hysbysebu'n eang (y tu hwnt i ddeiliaid ysgoloriaethau).</p>	<p>Parhau i adnabod cyfleoedd er mwyn pontio disgyblaethau a'r sector addysg (uwchradd, bellach, uwch).</p> <p>Proses barhaus o greu deunyddiau hyrwyddo i dynnu sylw at gyflawniad myfyrwyr cyfrwng Cymraeg y Diwydiannau Creadigol.</p> <p>Swyddogion Cangen i sicrhau bod y Dystysgrif Sgiliau Iaith yn cael ei hysbysebu'n eang (y tu hwnt i ddeiliaid ysgoloriaethau).</p>	<p>Parhau i adnabod cyfleoedd er mwyn pontio disgyblaethau a'r sector addysg (uwchradd, bellach, uwch).</p> <p>Proses barhaus o greu deunyddiau hyrwyddo i dynnu sylw at gyflawniad myfyrwyr cyfrwng Cymraeg y Diwydiannau Creadigol.</p> <p>Swyddogion Cangen i sicrhau bod y Dystysgrif Sgiliau Iaith yn cael ei hysbysebu'n eang (y tu hwnt i ddeiliaid ysgoloriaethau).</p>

<b>Datblygu'r maes: targedau sefydliadol</b>				
<b>Sefydliad</b>	<b>Nod gweithredu</b>	<b>Targedau blwyddyn (2017/18)</b>	<b>Targedau 3 mlynedd (2019/20)</b>	<b>Targedau 5 mlynedd (2021/22)</b>
Prifysgol Aberystwyth	Mae'r Brifysgol yn awyddus i gynnal y ddarpariaeth lawn sydd ar gael yn y maes hwn a nifer y staff cyfrwng Cymraeg er mwyn sicrhau bod myfyrwyr yn parhau i dderbyn darpariaeth amrywiol a dysgu a arweinir gan ymchwil. Mae niferoedd isel ym maes Drama yn gwneud cynnal y ddarpariaeth yn y pwnc hwn yn heriol. Mae'r Brifysgol yn edrych at ailwampio ei darpariaeth er mwyn apelio'n ehangach ac mae cynyddu niferoedd yn flaenoriaeth.	Cyfrannu at drafodaethau a chytuno ar strwythur gweithgareddau cydweithredol Theatr a Drama 2018/19.	O leiaf 10 ymhob blwyddyn yn astudio rhywfaint drwy gyfrwng y Gymraeg.	O leiaf 12 ymhob blwyddyn yn astudio rhywfaint drwy gyfrwng y Gymraeg.
Prifysgol Abertawe	Mae Prifysgol Abertawe yn diogelu 80 credyd ar bob lefel israddedig drwy gyfrwng y Gymraeg.  Mae'r radd BA Cyfryngau a Chysylltiadau Cyhoeddus a'r radd gyfun BA Cymraeg, Cyfryngau a Chysylltiadau Cyhoeddus yn parhau ar gyfer 2018-19. Y nod yw ymestyn cyfleoedd i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ar lefel Meistr.	O leiaf 6 ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.	O leiaf 6 ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.  Cynnig cyfleoedd i astudio drwy gyfrwng y	O leiaf 8 ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.  Cynnig cyfleoedd i astudio ar lefel M drwy gyfrwng y Gymraeg.

			Gymraeg ar lefel Meistr.	
Prifysgol Bangor	Y prif nod yw cynnal y ddarpariaeth a'r niferoedd presennol, gyda 90% yn astudio o leiaf beth fyddai'n cyfateb i 5 credyd drwy gyfrwng y Gymraeg, o leiaf 75% yn astudio 20 credyd ac o leiaf 50% yn astudio o leiaf 40 credyd bob blwyddyn.	Cyfrannu at drafodaethau a chytuno ar strwythur gweithgareddau cydweithredol Theatr a Drama 2018/19.	O leiaf 15 ym mhob blwyddyn yn astudio rhywfaint drwy gyfrwng y Gymraeg.	O leiaf 15 ym mhob blwyddyn yn astudio rhywfaint drwy gyfrwng y Gymraeg.
Prifysgol Caerdydd		Cwblhau Prosiect Strategol Esboniadur Newyddiaduraeth.	O leiaf 10 ym mhob blwyddyn yn astudio rhywfaint drwy gyfrwng y Gymraeg.	O leiaf 12 ym mhob blwyddyn yn astudio rhywfaint drwy gyfrwng y Gymraeg Gymraeg.
Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant		Sicrhau 2 ddarlithydd llawn amser gyda'r gweddill yn llawrydd.  Cynnig MA Theatr.  Llai na 15 ym mhob blwyddyn astudio (israddedig).  Cyfrannu at drafodaethau a	O leiaf 15 ym mhob blwyddyn astudio (2 flynedd).  O leiaf 12 ar yr MA Theatr.  Sefydlu cartref parhaol ar gyfer y ddarpariaeth Diwydiannau Creadigol yng Nghaerdydd.	O leiaf 15 ym mhob blwyddyn astudio (2 flynedd).  O leiaf 12 ar yr MA Theatr.

		chytuno ar strwythur gweithgareddau cydweithredol Theatr a Drama 2018/19.		
Prifysgol De Cymru	<p>Yn sgil yr holl siaradwyr Cymraeg sydd ar draws y meysydd gwahanol yn y gyfadran, mae'r Brifysgol yn trafod y posibiladau o gynig darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws meysydd gwahanol wrth gynig darpariaeth fodiwlaid, yn ogystal â darpariaeth sylweddol/llawn ar gyrsiau, er mwyn datblygu'n strategol ar gyfer y dyfodol a sicrhau cynaliadwyedd.</p> <p>Ar y cwrs BA (Anrh) Theatr a Drama, mae dau ddarlithydd CALI a chyfraniadau gan ddarlithwyr eraill y Brifysgol, yn ogystal â darlithwyr ac ymarferwyr gwadd. Mae trafodaethau ar y gweill gyda'r adran ynghylch 1 swydd sydd â'i chytundeb yn dod i ben fis Gorffennaf 2018.</p> <p>Mae'r Gyfarwyddiaeth Perfformio a Chynhyrchu ar ei newydd wedd yn awyddus iawn i ddatblygu cysylltiadau dyfnach gyda chyn-fyfyrwyr, wrth eu gwahodd i'r Brifysgol i weithio gyda'r myfyrwyr presennol.</p> <p>Gan fod adolygiad o ddarpariaeth y Cyfryngau ar y gweill, a thrafodaethau ynghylch dilysu gradd newydd Theatr a Drama, mae'n anodd gosod union dargedau ar gyfer y tair blynedd a'r pum mlynedd nesaf ar hyn o bryd, ond bydd y Brifysgol yn ymrwmo i ddatblygu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y Gyfarwyddiaeth Perfformio a Chynhyrchu.</p>	<p>Noder y cynhaliwyd adolygiad llawn o'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar y radd Cynhyrchu'r Cyfryngau a bod y radd wedi ei gohirio yn ei ffurf bresennol yn 2017/18 ar gyfer myfyrwyr Lefel 4, ac y bydd hyn yn effeithio ar y targedau.</p> <p>Cyfrannu at drafodaethau a chytuno ar strwythur gweithgareddau cydweithredol Theatr a Drama 2018/19.</p>	O leiaf 15 ym mhob blwyddyn yn astudio rhywfaint drwy gyfrwng y Gymraeg.	O leiaf 15 ym mhob blwyddyn yn astudio rhywfaint drwy gyfrwng y Gymraeg.